Taflen 1

# Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

## Geirfa[1]

**Gwrthsemitiaeth:** Gelyniaeth tuag at neu gasineb at Iddewon fel grŵp crefyddol neu ethnig, yn aml ynghyd â gwahaniaethu cymdeithasol, economaidd neu wleidyddol.

**Gwersyll crynhoi**: Ledled Ewrop a feddiannwyd gan yr Almaenwyr, sefydlodd y Natsïaid wersylloedd i gadw ac, os oedd angen, i ladd gelynion y wladwriaeth fel y'u gelwir, gan gynnwys Iddewon, Sipsiwn, gwrthwynebwyr gwleidyddol a chrefyddol, aelodau o'r Gwrthsafiad cenedlaethol, gwrywgydwyr, ac eraill. Roedd cyfnod carchar mewn gwersyll crynhoi yn ddiderfyn, nid oedd yn gysylltiedig â gweithred benodol, ac nid oedd yn destun unrhyw adolygiad barnwrol. Yn ogystal â gwersylloedd crynhoi, roedd y gyfundrefn Natsïaidd yn rhedeg sawl math arall o wersylloedd gan gynnwys gwersylloedd llafur, gwersylloedd tramwy, gwersylloedd carcharorion rhyfel, a chanolfannau lladd.

**Holocost:** Yr Holocost oedd erledigaeth systematig a difa Iddewon Ewropeaidd, wedi'i noddi gan y wladwriaeth, gan yr Almaen Natsïaidd a'i chydweithredwyr rhwng 1933 a 1945. Iddewon oedd y prif ddioddefwyr. Cafodd chwe miliwn o Iddewon eu llofruddio.

**Kindertransport** (Cludiant Plant): Dyma oedd enw anffurfiol cyfres o ymdrechion rhwng 1938 a 1940 a ddaeth â phlant Iddewig o diriogaeth oedd wedi'u rheoli gan y Natsïaid i ddiogelwch. Anfonodd rhieni Iddewig eu plant ar gludiant oedd wedi'i drefnu i fyw mewn cartrefi plant, gyda theuluoedd maeth neu gyda pherthnasau pell ym Mhrydain Fawr, yr Iseldiroedd, neu Ffrainc. Daeth ymdrechion Kindertransport â thua 10,000 o blant i ddiogelwch ym Mhrydain Fawr.

[1] United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Glossary* <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/glossary> [cyrchwyd 21 Mai 2022].

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

jhasw.com
iwitness.usc.edu

Adnodd wedi'i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC